# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
# Cynllun Ariannol

# 2017-18

# Cynnwys


1. Fy rôl fel Comisiynydd ............................................................3

2. Beth mae'r Comisiynydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn? .....................4

3. Pa wahaniaeth mae'r Comisiynydd yn ceisio'i wneud? ...................7

4. Defnyddio’r adnoddau’n ddoeth ....................................................11

6. Adnabod a rheoli risgiau ..............................................................16

7. Casgliad ........................................................................................20

Atodiad A Amcangyfrif Blynyddol 2017-18 ...........................................22

Atodiad B Cynllun Ariannol 2017-20 ....................................................26

Atodiad C Dyraniad cyllid 2016-17 .......................................................27

# 1. Fy rôl fel Comisiynydd

1.1. Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn hyrwyddwr ac yn llais annibynnol ar ran pobl hŷn ledled Cymru, gan sefyll i fyny a siarad ar eu rhan.

1.2. Fel Comisiynydd, fi yw'r Swyddog Cyfrifyddu ac mae gofyn i mi gyflwyno cyllideb flynyddol (yr Amcangyfrif) i Weinidogion Cymru yn unol â pharagraff 9(2) o Atodlen 1 i Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 (y Ddeddf). Mae'n cynnwys amcangyfrif o’r gwariant ar sail adnoddau a'r cyllid arian parod net y bydd ei angen gan Lywodraeth Cymru er mwyn i mi gyflawni swyddogaethau statudol y Comisiynydd.

1.3. Mae swyddogaethau'r Comisiynydd wedi'u pennu yn y Ddeddf. Mae'n fy ngalluogi i:

- Hyrwyddo ymwybyddiaeth ynghylch hawliau a buddiannau pobl hŷn yng Nghymru.
- Herio gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yng Nghymru.
- Annog yr arferion gorau wrth drin pobl hŷn yng Nghymru.
- Adolygu'r gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

1.4. Mae fy ngwaith yn cael ei lywio gan yr hyn y mae pobl hŷn, a'r rheini sy'n gofalu amdanynt ac yn eu cefnogi, yn ei ddweud sy'n bwysig iddynt. Drwy ymgysylltu'n uniongyrchol ac yn barhaus â phobl hŷn ac â'r rheini sy'n eu cynrychioli a'u cefnogi, byddaf yn sicrhau bod fy ngwaith yn adlewyrchu'r materion sydd o'r pwys mwyaf ac sy'n effeithio ar fywydau'r rheini sy'n 60 oed neu'n hŷn yng Nghymru. Byddaf hefyd yn gwneud gwaith ymchwil penodol sy'n rhoi llais uniongyrchol i bobl hŷn er mwyn i'w profiadau fod yn ganolog i’m blaenoriaethau fel Comisiynydd a phenderfyniadau pobl eraill.

1.5. Rwy’n gwneud hyn oll er mwyn sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed a bod y materion sy'n bwysig iddynt yn cael sylw. Fy nod yw sicrhau newid cadarnhaol, llesol ac ystyrlon i bobl hŷn ledled Cymru.

## 2. Beth mae'r Comisiynydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn?

2.1. Cyhoeddwyd fy Adroddiad Effaith a Chyrhaeddiad ar gyfer 2015-16, ‘Sbarduno Newid, Gwella Bywydau’ a'i gyflwyno i bobl hŷn yn ystod yr wythnos yn cychwyn ar 6 Mehefin 2016

2.2. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar y gwaith a gwblhawyd yn ystod 2015-16. Wrth gyflawni yn erbyn fy Fframwaith Gweithredu llwyddais i wneud y canlynol:

- cwrdd â 218 o grwpiau ledled Cymru, gan deithio dros 20,000 o filltiroedd i gyrraedd mwy na 5,600 o bobl hŷn;

- cyhoeddi adroddiad ‘Dementia: mwy na dim ond colli’r cof’ ac argymhellion ar gyfer darparwyr gwasanaethau dementia;

- parhau i gadeirio a chynnal y Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru, a sefydlwyd gan fy swyddfa ac a lansiwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford AC;

- cynnal seminarau i ddarparwyr Cartrefi Gofal gan bwysleisio’r arfer da y tynnwyd sylw ato yn fy adroddiad Adolygiad a’r ffyrdd ymarferol y gallai darparwyr Cartrefi Gofal eu defnyddio i wella bywydau preswylwyr;

- lansio fy ymgyrch ‘Dweud Na i Oedraniaeth’ gan nodi’n glir yr effaith a gaiff oedraniaeth ar bobl hŷn yn ogystal â thynnu sylw at y cyfraniad sylweddol gan bobl hŷn i’w cymunedau ledled Cymru ac i’r economi bob blwyddyn;

- cynnal cwrs hyfforddi ar gyfer pobl broffesiynol sy’n gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau, gan roi’r cyfle iddynt nodi ffyrdd y gall rhagfarnau anymwybodol effeithio ar gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus a phwysigrwydd

mabwysiadu ymagwedd sy’n seiliedig ar hawliau wrth ddarparu gwasanaethau.

- datblygu pecyn cymorth i bobl hŷn sy'n eu grymuso i herio oedraniaeth yn ei ffurfiau amrywiol. Mae’n darparu cyngor a gwybodaeth ymarferol ynghylch sut mae adnabod oedraniaeth ac mae’n nodi’n glir sut mae pobl hŷn yn gallu herio gwahaniaethu a thriniaeth annheg;

- cynyddu'r wybodaeth a'r syniadaeth am faint ac effaith camdriniaeth ddomestig y mae pobl hŷn yn ei hwynebu drwy gyfrwng cyfres o seminarau i weithwyr proffesiynol rheng flaen ledled Cymru;

- ymateb i 413 o bobl hŷn, eu teuluoedd a'u gofalwyr sydd wedi cysylltu â ni a'u helpu drwy ddarparu cymorth neu gyngor unigol; a hynny'n aml pan na allai neb arall helpu.

2.3. Rwyf hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth â chyrff gwasanaethau cyhoeddus eraill, yn ogystal â llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol, i gryfhau’r ddealltwriaeth yng Nghymru o'r materion sy'n bwysig i bobl hŷn a'r newidiadau sy'n ofynnol.

2.4. Er mwyn hyrwyddo arferion da yn y sectorau allweddol sy’n gweithio gyda phobl hŷn ac ar eu rhan, rwyf wedi cefnogi nifer o sefydliadau drwy noddi gwobrau sy’n cydnabod y cyfraniad amhrisiadwy a wnaethpwyd gan unigolion neilltuol. Yn ystod 2015-16, roedd yn bleser cael noddi’r gwobrau canlynol:

- Gwobrau Nyrs y Flwyddyn y Coleg Nyrsio Brenhinol yng Nghymru – Gwobr Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Gwobrau Gofal Cymru (ar y cyd â Fforwm Gofal Cymru) – Gwobr Urddas mewn Gofal.

2.5. Rwyf wedi darparu gwybodaeth, cyngor ac adnoddau defnyddiol i bobl hŷn ac i'r rheini sy'n gofalu amdanynt ac yn eu cefnogi mewn amrywiaeth eang o gynadleddau cenedlaethol a rhanbarthol a digwyddiadau cymunedol ledled Cymru.

2.6. Rwyf wedi ymateb i nifer o ymgyngoriadau i sicrhau bod y materion sy'n bwysig i bobl hŷn yn cael eu hadlewyrchu ar draws portffolios, polisïau, strategaethau a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru

2.7. Ceir rhagor o fanylion yn fy Adroddiad Effaith a Chyrhaeddiad 'Sbarduno Newid, Gwella Bywydau'; mae copïau ar gael ar fy ngwefan http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Impact_and_Reach_Report_2015-16_w.sflb.ashx

## 3. Pa wahaniaeth mae'r Comisiynydd yn ceisio'i wneud?

3.1. Mae fy Fframwaith Gweithredu 2013-2017 yn rhestru fy mlaenoriaethau'n glir, y newidiadau rwyf yn disgwyl eu gweld yng Nghymru a sut y byddaf yn ysgogi gwelliannau ym mywydau pobl hŷn, gan helpu i wneud Cymru'n lle da i heneiddio ynddo, nid dim ond i rai, ond i bawb.

3.2. Dyma'r pum maes a restrwyd gan bobl hŷn sy'n flaenoriaeth iddynt:

| | |
|---|---|
| Blaenoriaeth Un | Sicrhau bod lles pobl hŷn wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus |
| Blaenoriaeth Dau | Gwella ansawdd a mynediad at ofal cymdeithasol ac iechyd ynghyd â cheisio sicrhau bod hyn ar gael |
| Blaenoriaeth Tri | Gwarchod a gwella gwasanaethau, cyfleusterau a’r seilwaith cymunedol |
| Blaenoriaeth Pedwar | Cynrychioli pobl hŷn sydd mewn perygl o niwed a sicrhau eu bod yn cael eu diogelu a’u gwarchod |
| Blaenoriaeth Pump | Mynd i’r afael â rhagfarn, anghydraddoldeb a gwahaniaethu |

3.3. Yn 2015-16, dangosais sut y gallaf olrhain fy ngwariant ar sail y blaenoriaethau hyn. Rhoddir darlun o'r sefyllfa ar gyfer 2016-17 yn Atodiad C. Er na all hyn byth fod yn wyddor fanwl gywir, credaf ei fod yn cynnig darlun mwy ystyrlon o'r ffordd y byddaf yn gwario'r arian a gaf yn hytrach na thrwy ddefnyddio penawdau codau cyllideb goddrychol safonol.

3.4. Er nad yw fy Rhaglen Waith ar gyfer 2017-18 wedi'i chwblhau eto, dyma grynodeb o’r gwaith arfaethedig sydd wedi'i gadarnhau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf:

**Gwaith dilynol ar yr Adolygiad o Gartrefi Gofal** – Ar ôl cyhoeddi fy Adroddiad Adolygiad o Gartrefi Gofal – Lle i’w Alw’n Gartref’ –

cyhoeddais ofynion gweithredu i amrywiaeth o gyrff cyhoeddus, a oedd yn nodi'r hyn yr oedd angen iddynt eu cyflawni i wella ansawdd bywyd pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru.

Er mwyn sicrhau bod y cyrff hyn wedi cyflawni'r newid angenrheidiol, byddaf yn dilyn rhaglen waith dilynol helaeth a fydd yn cynnwys ymweliadau â chartrefi gofal ledled Cymru a sesiynau casglu tystiolaeth gyda rhanddeiliaid. Cyhoeddir adroddiad ar fy nghanfyddiadau ym mis Tachwedd 2017.

**Ymchwilio i Ddarpariaeth Eiriolaeth yng Nghymru** – byddaf yn gwneud gwaith ymchwil ansoddol i brofiadau pobl hŷn ynghylch cael gafael ar wasanaethau Eiriolaeth Proffesiynol Annibynnol yng Nghymru a'u defnyddio, gan gasglu tystiolaeth gan y bobl hŷn eu hunain a chan rhanddeiliaid allweddol eraill.

Yn ogystal â chyhoeddi adroddiad yn seiliedig ar fy nghanfyddiadau, rwy'n bwriadu cyhoeddi canllawiau ffurfiol hefyd i'r Awdurdodau Lleol a'r Byrddau Iechyd a fydd yn cefnogi gwelliannau wrth ddarparu gwasanaethau eiriolaeth.

**Heneiddio'n Dda yng Nghymru** – bydd Cam Dau Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru yn bwrw ymlaen yn ystod 2017-18, gyda phartneriaid cenedlaethol – gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, y sector gwirfoddol a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu – yn cyflawni ar amrywiol ymrwymiadau i sicrhau newid a gwelliannau yn unol â phum thema allweddol y rhaglen Heneiddio'n Dda (cymunedau o blaid pobl hŷn, cymunedau sy'n cefnogi pobl â dementia, lleihau codymau, unigrwydd ac arwahanrwydd, cyfleoedd ar gyfer dysgu a chyflogaeth).
Bydd gwaith yn dal i fynd rhagddo hefyd i ddatblygu mwy ar rwydweithiau lleol Heneiddio'n Dda a chefnogi grwpiau lleol ac unigolion i'w helpu i weithredu drostynt eu hunain i hybu cynhwysiant ac annibyniaeth, yn ogystal â chynnal eu cadernid eu hunain, drwy gefnogaeth uniongyrchol a thrwy ddatblygu cyngor ac adnoddau arbenigol bellach y gall unigolion gael mynediad atynt yn rhwydd a'u defnyddio. Bydd hyn yn cynnwys datblygu mwy ar rwydwaith o hyrwyddwyr lleol Heneiddio'n Dda yng Nghymru, pobl hŷn eu hunain, sy'n gallu rhaeadru ymhellach wedyn i weithredu lleol.

**Dylanwadu ar Ddeddfwriaeth, Polisïau ac Arferion** – Er mwyn sicrhau bod lleisiau a phrofiadau pobl hŷn yn cael eu hystyried yn llawn wrth i bolisïau gael eu datblygu a'u cyflawni, byddaf yn parhau i graffu'n fanwl ar ystod eang o bolisïau, arferion a deddfwriaeth. Byddaf yn canolbwyntio'n benodol ar amddiffyn a hyrwyddo hawliau pobl hŷn a chryfhau'r gyfraith er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu trin yn gyfartal â grwpiau oedran eraill.

Bydd y gwaith hwn yn caniatáu i mi ddylanwadu ar y penderfyniadau a wneir gan Weinidogion ac Ysgrifenyddion Cabinet Cymru, swyddogion Llywodraeth Cymru ac aelodau'r Cynulliad er mwyn sicrhau bod polisi ac ymarfer yn adlewyrchu anghenion pobl hŷn ac yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol.

**Craffu Datganiadau Ansawdd Blynyddol y Byrddau Iechyd** – Byddaf yn craffu ymhellach ar y Datganiadau Ansawdd Blynyddol a gyhoeddir bob blwyddyn gan Fyrddau Iechyd er mwyn sicrhau eu bod yn agored ac yn dryloyw am eu gwasanaethau drwy'r amser a bod pobl hŷn a'u teuluoedd yn gallu cael gafael yn rhwydd ar wybodaeth ystyrlon am ansawdd a diogelwch gwasanaethau yn eu hardaloedd.

Ar ôl y broses graffu hon, rhoddir adborth i'r Byrddau Iechyd i sicrhau bod eu Datganiadau Ansawdd Blynyddol yn gwella drwy'r amser.

**Cymorth gwaith achos ar gyfer pobl hŷn** – Byddaf yn parhau i roi cymorth uniongyrchol i bobl hŷn a'u teuluoedd ledled Cymru, yn unol â'm pwerau cyfreithiol o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, gan ymyrryd mewn achosion lle mae angen cymorth i herio penderfyniadau ac arferion cyrff cyhoeddus.

**Ymgysylltu â phobl hŷn** – Bydd fy nhîm a finnau'n parhau i deithio bob cwr o Gymru i ymgysylltu ag ystod amrywiol o bobl hŷn a sicrhau bod eu lleisiau'n dal i arwain a siapio fy ngwaith. Drwy ymgysylltu fel hyn, byddwn yn sicrhau hefyd fod pobl hŷn yn gwybod am fy rôl, fy ngwaith a'm blaenoriaethau, a sut y gallaf ddarparu cymorth uniongyrchol drwy fy nhîm gwaith achos.

Ar ben hynny, byddaf yn parhau i ymgysylltu â phobl hŷn drwy ystod eang o grwpiau a sefydliadau mwy ffurfiol ar gyfer pobl hŷn.

3.5. Mae strwythur y Fframwaith Gweithredu'n nodi cyd-destun pob maes blaenoriaeth, y newidiadau rwy'n disgwyl eu gweld ar gyfer pobl hŷn, tystiolaeth o'r newid hwnnw y byddaf yn chwilio amdano, yn ogystal â'r rhan y byddaf fi, y Comisiynydd, yn ei chwarae wrth gyflawni'r newid hwnnw. Mae rhagor o fanylion ar gael yn y Fframwaith Gweithredu sydd ar gael ar fy ngwefan http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Fframwaith_Gweithredu.sflb.ashx

# 4. Defnyddio’r adnoddau’n ddoeth

4.1. Mae'r gyllideb hon, a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru o dan baragraff 9(2) o Atodlen 1 i'r Ddeddf, yn nodi'r adnoddau sy'n ofynnol er mwyn cyflawni fy swyddogaethau statudol a'r cyllid arian parod net cysylltiedig yr amcangyfrifir y bydd ei angen gan Lywodraeth Cymru.

4.2. Caiff yr Amcangyfrif ar gyfer 2017-18 ei gynnwys yn Atodiad A. Darparwyd hefyd amcangyfrif o'r adnoddau a fydd yn ofynnol yn y blynyddoedd i ddod i hwyluso proses gynllunio gyllidebol Llywodraeth Cymru - mae hwn wedi'i gynnwys yn Atodiad B.

4.3. Rwy'n arwain tîm rheoli o ddau Gyfarwyddwr a 17 o staff eraill. Cyflawnir fy ngwaith yn bennaf gan y staff hyn. O bryd i’w gilydd, byddaf yn contractio darparwyr allanol sydd â'r sgiliau a'r arbenigedd perthnasol gofynnol; bydd hyn fel rheol er mwyn gwneud gwaith ymchwil mewn maes penodol.

4.4. Mae rhagor o wybodaeth am yr adnoddau a werir gan fy swyddfa ar gael yn y Cyfrifon Blynyddol a gyhoeddir ar fy ngwefan www.olderpeoplewales.com

## Craffu

4.5. Rhaid i drethdalwyr, ac yn benodol pobl hŷn yng Nghymru, deimlo'n ffyddiog bod yr adnoddau a ddarperir ar fy nghyfer yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau (yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol). Rwyf am ddangos effeithiolrwydd fy sefydliad ac effaith yr arian a gaf. Rwy'n dangos sut y byddaf yn cyflawni hyn yn fy Adroddiad Effaith a Chyrhaeddiad blynyddol.

4.6. Rwyf yn cael fy nghyllido gan Weinidogion Cymru er fy mod yn gweithredu'n annibynnol, ac rwyf yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i mi.

4.7. Rwyf wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i'm helpu fel Swyddog Cyfrifyddu i fonitro ac adolygu'r trefniadau rheoli ariannol, llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a systemau rheoli mewnol. Bob chwarter, bydd y Pwyllgor yn cyfarfod â mi, fy Nghyfarwyddwyr a'r archwilwyr mewnol ac allanol; mae'n cynnwys pedwar aelod.

4.8. Bob blwyddyn, mae’n ofynnol i mi gyflwyno'n ffurfiol Adroddiad Blynyddol am fy ngweithgareddau i Brif Weinidog Cymru. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru a Phwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol hefyd yn craffu ar fy ngwaith ac mae wedi cael ei ystyried yn rhan o drafodaethau'r cyfarfod llawn yn y Senedd hyd yma. Ni chodwyd dim materion sylweddol.

4.9. Caiff fy Nghyfrifon Blynyddol eu harchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi rhoi barn ddiamod am bob cyfnod cyfrifo ers sefydlu'r swydd yn 2008-09 tan 2015-16 ac ni chodwyd dim pryderon sylweddol yn y Llythyrau Rheoli Blynyddol.

4.10. Nid yw fy archwilwyr mewnol erioed wedi codi pryderon o bwys, ac eir ati i weithredu unrhyw argymhellion.

4.11. Mae fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn fodlon â pherfformiad yr archwiliad mewnol ac allanol.

## Mesur perfformiad ac effaith

4.12. Rwy'n gweithio mewn amgylchedd gweithredu sy'n gymhleth ac sy’n newid. Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu twf yn y galw am eu gwasanaethau a heriau ariannol cynyddol; nid yw fy sefydliad innau'n gallu osgoi'r pwysau hynny.

4.13. Rwy'n gallu dangos yn effeithiol yr hyn y mae fy ngwaith yn ei gyflawni dros bobl hŷn yng Nghymru drwy sicrhau:

- bod fy ngwaith yn dal i gael ei lywio gan yr hyn y mae pobl hŷn, gan gynnwys y rheini nad yw eu lleisiau bob tro'n cael eu clywed, yn dweud wrthyf sydd bwysicaf iddynt hwy;
- bod fy ngwaith yn berthnasol i BOB person hŷn drwy Gymru, ni waeth am eu lleoliad, eu hil, eu rhyw, eu hiaith, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu crefydd na'u cred;
- bod fy ngwaith yn defnyddio sgiliau, gwybodaeth a phrofiad pobl hŷn i gefnogi pobl hŷn ac i ysgogi newid;
- fy mod yn cydweithio â phobl eraill ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i ysgogi newid ym mywydau pobl hŷn;
- fy mod yn uchelgeisiol, yn eofn, yn heriol ac yn annibynnol, ond hefyd yn cefnogi’n gadarn y rheini sy'n gweithio i wella bywydau pobl hŷn yng Nghymru.

4.14. Bob blwyddyn, byddaf yn parhau i gyhoeddi adroddiad ‘Effaith a Chyrhaeddiad’, a hwn fydd calon fy Adroddiad Blynyddol statudol. Caiff ei gyflwyno i bobl hŷn mewn cyfarfod blynyddol.

## Ymateb i bwysau ariannol

4.15. Pan ffurfiwyd y sefydliad hwn, cytunodd Llywodraeth Cymru ar ddyraniad ariannu tair blynedd, sef £5 miliwn gan ddyrannu £1.8 miliwn yn 2010-11 sef y cyllid arian parod net gofynnol ar gyfer sefydliad sy'n gweithredu'n llawn.

4.17. Nid wyf innau wedi gallu osgoi effaith y mesurau cyni ac mae’r cyllid i mi yn ystod 2016-17 wedi gostwng i £1.543 miliwn. Er fy mod yn deall y pwysau sylweddol sy’n wynebu’r sector cyhoeddus, nid oeddwn yn disgwyl gostyngiad mor llym, ac nid oedd yn gyson â’r cyllid ar gyfer maes ehangach Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

4.16. Er hyn, mae'r sefydliad wedi llwyddo i wneud arbedion effeithlonrwydd, drwy wneud adolygiad manwl o’i fodel gweithredu a’i strwythur, ac mae’n parhau i sicrhau newid dylanwadol.

4.17. Rwyf wedi cymryd camau i sicrhau bod y dulliau rheoli mwyaf effeithlon ac effeithiol ar waith i reoli gwariant ariannol. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- **Ad-drefnu rolau staff**
  Ar ôl paratoi'r amcangyfrif gwreiddiol a gyflwynwyd ar gyfer 2016-17, daeth yn amlwg bod angen i mi edrych eto ar y strwythur cyfundrefnol mwyaf effeithiol sy’n angenrheidiol i gyflawni blaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd i ddod a fy nyraniad o adnoddau ar draws cyllidebau staff a chyllidebau heb fod yn ymwneud â staff.

  Yn ystod 2015-16, cynhaliais ymarfer ad-drefnu arall; roedd pum nod penodol i’r ad-drefnu:

1. Uno dyletswyddau penodol, a sicrhau bod swyddogaethau hanfodol yn cael eu cadw.

2. Cysoni ffocws fy ngwaith yn well er mwyn i mi allu dylanwadu ar

bolisi ac arfer da yng Nghymru.

3. Sicrhau bod rhywfaint o gymesuredd yn bodoli yn fy ngwaith ar draws y pum blaenoriaeth a pharhau i adeiladu ar fy ymgysylltiad â phobl hŷn a'm gwaith yng nghyd-destun Heneiddio’n Dda yng Nghymru, Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac Eiriolaeth.

4. Sicrhau bod ansawdd da a threfniadau llywodraethu effeithlon yn parhau i fod ar waith.

5. Sicrhau bod polisïau cyflog a gwobrwyo yn ein galluogi i recriwtio a chadw staff sy’n meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a’r profiad angenrheidiol ond gan leihau trothwy uchaf fy mandiau cyflog uchaf.

- **Cydweithio â sefydliadau eraill**

Byddaf yn ymgynghori â'r prif randdeiliaid a phartneriaid mewn sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector er mwyn osgoi dyblygu gwaith pobl eraill.

Rwyf hefyd wedi nodi cyfleoedd i gyfuno adnoddau, pobl ac arian pan fydd hynny'n briodol, ac i gydweithio â sefydliadau partner i gyflawni ein cydamcanion. Mae'r rhain yn cynnwys:

  - partneriaeth Rhaglen Heneiddio’n Dda yng Nghymru;
  - gweithio gydag Age Cymru ar yr ymgyrch genedlaethol i fynd i'r afael â sgamiau a chasglu tystiolaeth gan y rheini y mae dementia'n effeithio arnynt;
  - gweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag annibyniaeth pobl hŷn yng Nghymru.

Rwyf wedi annog fy staff i weithio gyda phobl mewn sefydliadau eraill er mwyn sicrhau bod arferion da yn cael eu rhannu a chynyddu cyfleoedd i gydweithio i’r eithaf.

Rwyf hefyd yn gweithio'n agos ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, y Comisiynydd Plant, Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd y dull cydweithredol hwn ar waith eisoes ond mae wedi magu momentwm ar ôl argymhellion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015. Rhai enghreifftiau o hyn fyddai cyd-gaffael

gwasanaethau archwilio mewnol a rhannu ystafelloedd cyfarfod a threfniadau gweithio ar wahanol ddesgiau ym mhob un o'n safleoedd yng Nghymru.

Byddaf hefyd yn chwarae fy rhan fel corff sy'n cael arian cyhoeddus drwy ystyried yr opsiynau ar gyfer cydwasanaethau sy'n cael sylw gan y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru. Ar yr amod eu bod yn rhoi'r un safonau o reolaeth ariannol i mi ag sydd gennyf eisoes a'u bod yn rhyddhau arbedion effeithlonrwydd ar ffurf arian y gallaf eu dyrannu i flaenoriaethau eraill heb beryglu fy effeithiolrwydd a'm hannibyniaeth weithredol, yna, rwyf o blaid dull cydlynol.

- **Adrodd ar wariant a'i fonitro**

  Byddaf yn sicrhau bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda deiliaid cyllidebau er mwyn sicrhau bod cyllidebau a gwariant yn cael eu monitro a'u hadolygu'n drwyadl a bod pobl yn deall ac yn rheoli amrywiannau. Yn y blynyddoedd diwethaf, rwyf wedi gwella fy systemau ariannol er mwyn cryfhau'r trefniadau adrodd a'r monitro.

  Fel rhan o'u rhaglen waith flynyddol, bydd fy archwilwyr mewnol yn adolygu trefniadau rheoli'r gyllideb, sy'n faes allweddol, er mwyn sicrhau nad ydym yn gorffwys ar ein rhwyfau ac er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

- **Rôl archwilwyr mewnol ac allanol**

  Rwyf wedi rhoi sicrwydd i'm Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y bydd unrhyw argymhellion yn adroddiadau'r archwilwyr mewnol ac allanol yn cael eu rhoi ar waith yn ddi-oed i wella'r amgylchedd rheolaeth ariannol.

  Wrth gynnal Archwiliadau Mewnol, cafwyd sicrwydd yn gyson bod gennyf system reolaeth fewnol gadarn ar waith a ddylai ddarparu sicrwydd sylweddol ynghylch cyflawni fy mlaenoriaethau.

  Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru, fy archwilwyr allanol, wedi tynnu sylw at unrhyw wendidau rheoli yn y ffordd y caiff fy Nghyfrifon Blynyddol eu paratoi nac yn y ffordd yr wyf yn defnyddio adnoddau

# 6. Adnabod a rheoli risgiau

## Agwedd tuag at risg

6.1. Mae cynllunio ariannol da yn gofyn am weledigaeth glir, amcanion penodol, adnabod ac asesu risgiau a chyfleoedd a phenderfynu ar flaenoriaethau. Wrth gwrs, mae ansicrwydd yn gysylltiedig ag unrhyw gyllideb a phroses gynllunio, hyd yn oed wrth baratoi ar gyfer un flwyddyn, a bydd yr ansicrwydd hwnnw'n cynyddu wrth i'r cyfnod ymestyn.

6.2. Mae rheoli risg yn elfen hanfodol o'r ffordd y mae fy sefydliad yn gweithredu a nodir hyn yn y Datganiad Llywodraethu yn fy Nghyfrifon Blynyddol. Mae fy fframwaith llywodraethu'n cynnwys tair ffynhonnell sicrwydd:

- Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg
- Darparwr archwiliad mewnol
- Tîm Rheoli Strategol

6.3. Bydd fy mhrosesau rheoli risg yn nodi ac yn rheoli risgiau sy'n effeithio ar fy ngwaith, yn edrych mewn ffordd gytbwys ar y cyfleoedd a allai godi, ac yn rhoi dulliau rheoli a chamau lliniaru ar waith i helpu i warchod y sefydliad rhag canlyniadau risgiau.

6.4. Mae gennyf sail gadarn ar gyfer rheolaeth fewnol a rheoli risg integredig fel rhan o lywodraethu corfforaethol da.

6.5. Mae dull cadarnhaol o reoli risg yn golygu y byddaf yn edrych nid yn unig ar y risg i bethau fynd o'i le, ond hefyd ar effaith peidio â manteisio ar gyfleoedd neu beidio â manteisio ar gryfderau corfforaethol. Mae hyn yn fy ngalluogi i:

- hybu diwylliant arloesol, llai cyndyn o fentro, lle mae cymryd risgiau wedi'u mesur a'u rheoli wrth chwilio am gyfleoedd a fydd o fudd i'm hamcanion yn cael ei annog a'i reoli;
- gwella perfformiad y sefydliad drwy lywio a chryfhau'r broses o wneud penderfyniadau a chynllunio;
- sicrhau amgylchedd diogel i staff weithio ynddo.

6.6. Mae gan holl staff fy swyddfa beth cyfrifoldeb dros reoli risg a rheolaeth fewnol er mwyn cyflawni'r amcanion unigol a osodwyd iddynt a'm nodau a'm blaenoriaethau cyffredinol innau.

6.7. Rwyf yn sylweddoli bod y sefydliad yn wynebu risgiau rydym yn gwybod amdanynt a fyddai, o'u hanwybyddu, yn effeithio'n ddifrifol ar fy ngallu i gyflawni fy mlaenoriaethau strategol. Trafodwyd y risgiau corfforaethol hyn â'm Cyfarwyddwyr, yr archwilwyr mewnol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg; roedd hyn yn cynnwys ystyried y risg i'n henw da, risg wleidyddol a risg ariannol ac mae crynodeb wedi'i gynnwys yn y Datganiad Llywodraethu yn fy Nghyfrifon Blynyddol.

6.8. Mae'r polisi risg wedi cael ei ddiweddaru a bydd yr archwilwyr mewnol yn edrych ar risg fel rhan o'u rhaglen archwiliad mewnol.

6.9. Serch hynny, mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio'n bennaf ar fy asesiad o'r risgiau ariannol allweddol a'r camau y byddaf yn eu cymryd i reoli'r risgiau hynny.

## Asesu'r risg ariannol

6.10. Mae'r adnoddau sydd ar gael i mi yn brin ac er mwyn gweithio tuag at gyflawni fy amcanion, rhaid i mi, fel sefydliadau eraill sy'n cael arian cyhoeddus, flaenoriaethu fy nghynlluniau gwario ar gyfer 2017-18.

6.11. Isod, rhestrir y risgiau ariannol sylweddol y bydd angen i mi eu rheoli yn 2017-18 ac yn y blynyddoedd wedi hynny:

- **Canfyddiad o aneffeithiolrwydd**
  Mae'n hanfodol fy mod yn gallu dangos a chyfleu'r gwahaniaeth y mae rôl y Comisiynydd yn ei wneud i fywydau pobl hŷn. Fy nod yw sicrhau bod fy ngwaith yn adlewyrchu'r hyn y mae pobl hŷn yng Nghymru yn dymuno ei gael. Nid yw hyn bob tro yn cyfateb i'r hyn y mae pobl a sefydliadau eraill yn ei ddisgwyl gennyf o bosibl.

  Mae gofyn i mi godi ymwybyddiaeth o rôl y Comisiynydd. Felly, byddaf yn parhau i fuddsoddi yn fy Sioe Deithiol Ymgysylltu gan ddarparu gwybodaeth am fy rôl a'm gwaith e.e. cyhoeddi adroddiadau, mynychu

digwyddiadau pwysig, gwella fy ngwefan a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

Fy adroddiad Effaith a Chyrhaeddiad fydd prif ffynhonnell y wybodaeth am y gwaith y byddaf yn ei wneud i geisio gwireddu'r canlyniadau y dywedodd pobl hŷn wrthyf eu bod yn dymuno eu gweld gan eu Comisiynydd. Dyma oedd sail fy Fframwaith Gweithredu.

- **Edrych ymlaen a diffyg cyllideb ddangosol yn y dyfodol**
  Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei chyllideb ei hun ar gyfer 2017-18 a'r blynyddoedd sy'n dilyn eto. Yn y gorffennol, rwyf wedi gweithredu o fewn cynllun ariannol 3 blynedd a oedd yn fy ngalluogi i gynnwys rhywfaint o rag-gynllunio a hyblygrwydd yn fy rhaglen waith. Gan nad oes cyllid dangosol ar gyfer y dyfodol yn cael ei grybwyll yn llythyr cyllid 2016-17, mae hyn yn ei gwneud yn anodd iawn i mi gynllunio mewn modd cynaliadwy.

  Rwyf wedi ail-edrych yn ofalus ar fy nghyllidebau heb fod yn gysylltiedig â chyflogau ond, gan fy mod eisoes yn adolygu'r meysydd hyn yn rheolaidd, nid wyf wedi llwyddo i sicrhau arbedion sylweddol. Rwyf eisoes wedi gwneud sawl newid dros y tair blynedd diwethaf yn y ffordd rwyf yn defnyddio'r cyllidebau hyn ac, er gwaethaf adolygu rheolaidd, rwyf wedi gweld mai prin iawn yw'r cyfleoedd i wneud unrhyw beth mwy yn y maes hwn. Er gwaethaf hyn, rwyf wedi gweithio ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, y Comisiynydd Plant, Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i weld lle mae modd sicrhau rhagor o arbedion neu effeithlonrwydd, a byddaf yn parhau i wneud hynny.

  Rwyf wedi ymrwymo'n barod i gydweithio gyda'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a, lle y bo yn briodol, byddaf yn parhau i chwilio am unrhyw ffordd o sicrhau gwerth am arian ym mhob agwedd ar gyflawni fy musnes.

  Byddwn yn falch pe bai Lywodraeth Cymru yn cymeradwyo amlen ariannu tymor canol er mwyn i mi gael y cyfle a'r modd i gynllunio'n effeithiol o'r naill flwyddyn i'r llall. Gallaf hefyd sicrhau wedyn bod y gweithgareddau

sy'n gysylltiedig â'm swyddogaethau statudol yn cael eu cynnal o'r naill flwyddyn i'r llall gan gynnwys dilyn trywydd argymhellion a wnaethpwyd a chanllawiau a gyhoeddwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

- **Costau staff**
  Costau staff yw cyfran fwyaf fy ngwariant ac mae'n hollbwysig gallu cadw a recriwtio staff o ansawdd i gyflawni blaenoriaethau'r Fframwaith Gweithredu.

  Ar ôl ad-drefnu sylweddol yn 2016, nid yw'n debygol y bydd modd rhyddhau rhagor o arbedion effeithlonrwydd drwy leihau costau staff.

  Rwyf eisoes mewn sefyllfa lle na allaf ddarparu dyfarniadau cyflog ar yr un lefel ag sy'n cael eu hystyried gan gyrff eraill sy'n cael arian cyhoeddus, heb leihau nifer y staff a'r sylfaen gostau'n gyffredinol. Er nad oes penderfyniadau wedi'u gwneud eto, bydd angen i mi ystyried pob opsiwn sydd ar gael ar gyfer y dyfodol.

- **Y balansau arian parod fydd ar gael ar gyfer y blynyddoedd i ddod**
  Yn 2016-17, byddaf yn gallu cyflawni fy holl rwymedigaethau cylchol o'm dyraniad arian blynyddol, sef £1.543M.

  Rwyf wedi cytuno eisoes â Llywodraeth Cymru y caiff unrhyw falansau arian heb eu defnyddio ar ddiwedd 2016-17 eu dwyn ymlaen i gefnogi gweithgareddau yn 2017-20. Ond, rwyf o'r farn mai dyma'r lefel isaf o gronfeydd wrth gefn y gallaf ei dal erbyn hyn heb danseilio a pheryglu egwyddorion rheolaeth ariannol gadarn sy'n ofynnol fel rhan o'm dyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu, a'm dyletswyddau statudol fel Comisiynydd.

6.12. Fy nod yw rheoli'r risgiau ariannol hyn drwy:

- adrodd am effaith fy ngwaith mewn ffordd agored a thryloyw ac ymgysylltu â rhanddeiliaid;

- adolygu fy mhrosesau penderfynu a chynllunio er mwyn gweld ymhle y gellid gwneud rhagor o arbedion

effeithlonrwydd; gan ddefnyddio’r archwiliad mewnol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i graffu ar effeithiolrwydd;

- ymchwilio gyda chyrff eraill sy'n cael arian cyhoeddus a chyrff y trydydd sector, lle bo hynny'n briodol, i unrhyw gyfleoedd i gydweithio er mwyn cyfuno adnoddau; pobl, lleoedd a chyllid;

- integreiddio rhagor o drefniadau rheoli risg a threfniadau rheoli mewnol yn rhan o drefniadau llywodraethu corfforaethol da; hybu diwylliant o weithio mewn ffyrdd mwy arloesol a llai cyndyn o fentro.

# 7. Casgliad

7.1. Mae'r Amcangyfrif hwn wedi'i baratoi gan gydnabod y pwysau ariannol parhaus y mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru a dinasyddion Cymru yn eu hwynebu. Rwy'n ceisio cyllid arian parod net o £1.543 miliwn ar gyfer 2017-18 a byddaf yn parhau i ddyrannu'r adnoddau hyn yn ddarbodus i’r blaenoriaethau a nodir gan bobl hŷn.

7.2. Mae'r hyn a gyflawnwyd gennyf fi a’m staff yn y pedair blynedd diwethaf wedi digwydd mewn amgylchedd gweithredu heriol iawn lle mae'r gofynion wedi cynyddu o ran yr adnoddau sydd ar gael i mi fel Comisiynydd.

7.3. Serch hynny, mae'n dod yn fwyfwy anodd parhau i weithredu mor effeithiol ag yr hoffwn er mwyn diwallu anghenion y bobl hŷn sydd fwyaf agored i niwed.

7.4. Wrth baratoi'r amcangyfrif ar gyfer 2017-18 rwyf wedi:

i. edrych ar yr holl gyllidebau ar gyfer costau nad ydynt yn gysylltiedig â staff ac rwyf yn fodlon nad oes fawr o le i wneud rhagor o arbedion effeithlonrwydd o dan y penawdau hyn yn y gyllideb.

   Rwyf wedi ymrwymo i ddefnyddio'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, lle bo hynny'n ymarferol, gyda'r nod o sicrhau gwerth am arian yn y cyllidebau sy’n cynnwys costau nad ydynt yn gysylltiedig â staff.

ii. cyllidebu ar gyfer codiadau cyflog cynyddrannol i'r staff lle bydd y rhain yn berthnasol.

Costau staff yw cyfran fwyaf fy ngwariant ac mae'n hollbwysig gallu cadw a recriwtio staff o ansawdd i gyflawni blaenoriaethau’r Fframwaith Gweithredu yn awr ac yn y dyfodol.

Mae fy amcangyfrif cyllideb wedi cynnwys dyfarniad cyflog o 1%. Rwyf yn deall bod hyn yn llai na’r hyn sy’n cael ei ystyried gan gyrff eraill sy’n cael arian cyhoeddus. Yn fy marn i, ni fyddaf yn gallu cynyddu'r ganran hon heb leihau nifer fy staff yn gyffredinol a’r sylfaen gostau.

# Atodiad A Amcangyfrif Blynyddol 2017-18

Mae'n ofynnol i mi gyflwyno Amcangyfrif blynyddol i Weinidogion Cymru o dan baragraff 9(2) o Atodlen 1 i Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Mae'n nodi'r adnoddau sy'n ofynnol i gyflawni fy swyddogaethau statudol a'r cyllid arian parod net cysylltiedig yr amcangyfrifir y bydd ei angen gan Lywodraeth Cymru.

Yna, bydd gofyn i Weinidogion Cymru osod yr Amcangyfrif, gydag addasiadau neu heb addasiadau, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â pharagraff 9(3) o Atodlen 1 i Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru).

Dyma Amcangyfrif 2017-18 ar gyfer y Comisiynydd Pobl Hŷn:

| **Disgrifiad** | **Amcangyfrif 2017-18 £000** |
|---|---:|
| Costau cyflogaeth | 1,045,841 |
| Llety | 148,229 |
| Costau swyddfa | 35,575 |
| Costau TG | 72,281 |
| Cyfathrebu ac Ymgysylltu | 62,380 |
| Costau cynnal eraill | 91,036 |
| Rhaglen | 138,000 |
| Wrth gefn | 15,000 |
| **Cyfanswm y Gwariant** | **1,608,342** |
| Llai: | |
| Defnyddio balans arian parod a ddygwyd ymlaen | 47,966 |
| Symudiadau heb fod yn arian parod | 7,376 |
| Incwm anghylchol | 10,000 |
| **Gofyniad arian parod net** | **1,543,000** |

*Cytunwyd gyda Llywodraeth Cymru a chymeradwywyd gan fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Ni chodwyd unrhyw faterion.

Nodiadau:

## Costau cyflogaeth

Ar hyn o bryd, mae'r Comisiynydd yn cyflogi 19 o staff. Mae'r Comisiynydd hefyd wedi penodi pedwar aelod i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg; mae eu costau wedi'u cynnwys o dan y pennawd hwn. Mae costau cyflogaeth hefyd yn cynnwys yr holl wariant ar hyfforddi, costau teithio, archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, costau recriwtio a chyfraniadau YG a phensiwn y cyflogwr.

Talwyd dyfarniad costau byw gwerth 1% i'r staff yn 2015-16, yn unol â chyrff eraill sy'n cael arian cyhoeddus yng Nghymru. Yn 2016-17, dyfarnwyd codiadau cynyddrannol gan fod y rhain wedi'u nodi mewn contractau. At ddibenion cyllidebu'n unig, tybiwyd y bydd angen caniatáu ar gyfer dyfarniad cyflog yn unol â chwyddiant o 1% yn 2016-17, ond nid oes penderfyniad wedi'i wneud ynghylch hyn eto, gan ein bod yn aros am gytundeb ynghylch y dyraniad. Nodwyd bod chwyddiant cyflogau yn y blynyddoedd i ddod yn risg ariannol bwysig ym mhrif gorff yr adroddiad hwn.

Pennir cyflog y Comisiynydd ei hun gan Weinidogion Cymru; rhoddwyd dyfarniad costau byw dwy flynedd yn 2015-16. At ddibenion cyllidebu'n unig, mae cynnydd dangosol chwyddiannol o 1% wedi'i gynnwys ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

## Costau llety a swyddfa

Mae costau llety a swyddfa yn cynnwys gwariant ar rent, ardrethi, diogelwch, cyfleustodau, nwyddau swyddfa ac yswiriant. Mae'r Comisiynydd wedi mabwysiadu dull darbodus o gaffael nwyddau swyddfa a bydd yn parhau i chwilio am arbedion effeithlonrwydd yn y maes hwn. Mae'r Comisiynydd yn manteisio i'r eithaf ar ddefnyddio contractau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol lle mae hynny'n ymarferol.

Dim ond un swyddfa sydd gan y Comisiynydd; cytunwyd ar y brydles yn 2013-14 am bum mlynedd hyd at 2018-19. Mae'r Comisiynydd wedi sicrhau telerau ffafriol i ymestyn y brydles i 2023.

Yr RPI ym mis Mehefin 2016 oedd 1.6%, ac 0.5% oedd y CPI. Bydd y Comisiynydd yn monitro effaith unrhyw amrywiadau chwyddiannol mewn prisiau yn y dyfodol gan amsugno unrhyw bwysau ychwanegol ar gostau a fydd yn codi.

## Offer TGCh a’i gynnal a'i gadw

Mae gan y Comisiynydd gynllun TGCh tymor canol a fydd yn cynnal y systemau presennol i'r dyfodol ar sail adnewyddu a gwaith cynnal a chadw brys a hanfodol. Amcangyfrifir mai £5k fydd costau cyfalaf TGCh ar gyfer 2017-20. Ni fydd y Comisiynydd yn cael dyraniad cyfalaf ar wahân a chaiff hyn ei ariannu o'r prif ddyraniad arian parod.

Mae rhaglen dreigl ar waith i adnewyddu caledwedd cyfrifiaduron personol dros y 1-5 mlynedd nesaf ac mae hyn yn seiliedig ar angen hanfodol y busnes.

Mae costau refeniw yn cynnwys cost y Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer cynnal a chadw TGCh, Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer Band Eang PSBA a Chytundeb Lefel Gwasanaeth ar wahân ar gyfer cronfa ddata rheoli cofnodion y Comisiynydd. Mae angen adnewyddu nifer o drwyddedau meddalwedd isel eu cost hefyd.

## Cyfathrebu ac ymgysylltu

Un o swyddogaethau'r Ddeddf yw hybu ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru. Felly, mae'n hanfodol gwario ar gyfathrebu ac ymgysylltu i gyrraedd pobl hŷn drwy Gymru er mwyn i'r Comisiynydd ddarparu'r cymorth mwyaf priodol yn ddi-oed.

## Costau cynnal eraill

Byddai costau cynnal eraill yn cynnwys gwariant ar ffioedd archwilio, costau cyfieithu, ffioedd cyfreithiol yn ogystal â chostau dibrisio ac amorteiddio a’r gwaith y mae angen ei wneud er mwyn cydymffurfio â Safonau’r Gymraeg. Mae'r Comisiynydd yn manteisio i'r eithaf ar ddefnyddio contractau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol lle mae hynny'n ymarferol.

Ymhlith y costau cynnal eraill mae cyfraniadau at ddyfarniadau sy'n hybu rhagoriaeth wrth ymarfer i'r rheini sy'n gweithio gyda phobl hŷn.

## Rhaglenni

Bydd gwariant ychwanegol yn digwydd ar sail anghylchol i gasglu tystiolaeth, i wneud ymchwil ac i gyhoeddi canfyddiadau a chanllawiau. Dyrennir hyn ar sail ddewisol gan y Comisiynydd ac fe'i hesbonnir yn llawn yn Fframwaith Gweithredu'r Comisiynydd a'r Rhaglen Waith flynyddol.

Mae cyllideb o £15k wedi’i dyrannu dros dro yn 2017-18 i wneud gwaith dilynol ar Adolygiad y Comisiynydd ar Gartrefi Gofal.

**Symudiadau heb fod yn arian parod**
Mae a wnelo hyn â'r costau hynny a gaiff eu cofnodi yn y cyfrif gwariant ond nad oes taliad arian parod wedi'i wneud e.e. symudiad ar gredydwyr a debydwyr, yn ogystal â chostau dibrisio ac amorteiddio.

**Balansau arian parod**

Y dybiaeth yw y caiff unrhyw falansau arian heb eu defnyddio ar ddiwedd 2016-17 eu dwyn ymlaen i gefnogi gweithgareddau yn 2017-20.

# Atodiad B Cynllun Ariannol 2017-20

## Cynlluniau Ariannol 2017-20

| **Disgrifiad**<br>***Ffigurau dangosol yn unig** | **Amcangyfrif 2017-18 £000** | **Amcangyfrif 2018-19* £000** | **Amcangyfrif 2019-20* £000** |
|---|---|---|---|
| **Gwariant:** | | | |
| Costau cyflogaeth | 1,045,841 | 1,056,836 | 1,036,246 |
| Llety | 148,229 | 151,851 | 155,651 |
| Costau swyddfa | 35,575 | 29,179 | 29,812 |
| Costau TG | 72,281 | 61,811 | 61,811 |
| Cyfathrebu ac Ymgysylltu | 62,380 | 60,199 | 61,059 |
| Costau cynnal eraill | 91,036 | 87,950 | 87,621 |
| Rhaglen | 138,000 | 100,000 | 100,000 |
| Wrth gefn | 15,000 | 15,000 | 15,000 |
| **Cyfanswm y Gwariant** | **1,608,342** | **1,562,826** | **1,547,200** |
| Llai: | | | |
| Defnyddio balans arian parod a ddygwyd ymlaen | 47,966 | 22,572 | 9,416 |
| Symudiadau heb fod yn arian parod | 7,376 | (2,746) | (5,216) |
| Incwm anghylchol | 10,000 | 0 | 0 |
| **Gofyniad arian parod net** | **1,543,000** | **1,543,000** | **1,543,000** |

# Atodiad C Dyraniad cyllid 2016-17

Rwyf wedi gwneud rhagor o gynnydd wrth olrhain fy ngwariant yn erbyn y meysydd blaenoriaeth a nodir yn fy Fframwaith Gweithredu. Y nod yw cynnig darlun mwy ystyrlon o sut y byddaf yn gwario'r arian a roddir i mi nag y gellir drwy ddefnyddio’r penawdau adrodd ariannol safonol sy'n ofynnol yn y Cyfrifon Blynyddol:

